# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary

## 04/03/2014

Cynnwys Contents

*Cyhoeddir atebion yn yr iaith y'u darparwyd, gyda chyfieithiad Saesneg o atebion yn y Gymraeg.*
*Answers are published in the language in which they are provided, with a translation into English of responses provided in Welsh.*

*[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
*[R]signifies that the Member has declared an interest.*

*[W]yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*
*[W]signifies that the question was tabled in Welsh.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Amddiffynfeydd Arfordirol

### Coastal Defences

**Keith Davies** Bywgraffiad Biography

10. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyllid sydd ar gael ar gyfer amddiffynfeydd arfordirol yng Nghymru? OAQ(4)1531(FM)

10. Will the First Minister provide an update on the funding available for coastal defences in Wales? OAQ(4)1531(FM)

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym yn buddsoddi dros £240 miliwn mewn amddiffynfeydd arfordirol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd yn ystod oes y Llywodraeth hon, ynghyd â £50 miliwn o gyllid Ewropeaidd. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn ddiweddar y byddai £3 miliwn yn cael ei ddarparu ar gyfer gwaith atgyweirio brys i amddiffynfeydd arfordirol.

Over the lifetime of this Government, we are investing over £240 million in flood and coastal defences and a further £50 million of European funding. The Minister for Natural Resources and Food recently announced that £3 million would be made available to support emergency repair work to coastal defences.

### Meysydd Twf yn Economi Cymru

### Areas of Growth within the Welsh Economy

**Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

11. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am feysydd twf yn economi Cymru? OAQ(4)1529(FM)

11. Will the First Minister make a statement on areas of growth within the Welsh economy? OAQ(4)1529(FM)

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have taken wide-ranging actions to deliver against our priorities of supporting growth and sustainable jobs. Latest figures for employment, production and construction output show that the economy in Wales is recovering well, with overall employment at a record high.

### Cyllidebau Cynghorau Sir 2014/15

### 2014/15 County Council Budgets

**Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

12. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllidebau cynghorau sir 2014/15? OAQ(4)1527(FM)

12. Will the First Minister make a statement on the 2014/15 county council budgets? OAQ(4)1527(FM)

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae cynghorau Cymru ar wahanol gamau yn y broses o bennu eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd pob un ohonynt yn cwblhau'r broses yn y dyfodol agos.

Councils in Wales are at different stages in setting their budgets for the next financial year. They will all complete the process in the near future.

### Cyffuriau 'Anterth Cyfreithlon'

### 'Legal Highs'

**Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

13. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r problemau a achosir gan yr hyn a elwir yn gyffuriau "anterth cyfreithlon" yng Nghymru? OAQ(4)1520(FM)

13. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's efforts to tackle the problems caused by so called "legal highs" in Wales? OAQ(4)1520(FM)

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our substance misuse delivery plan 2013-15 sets out the actions that we are taking to address the problems caused by new psychoactive substances commonly known as 'legal highs'. These actions include funding the Welsh emerging drugs and identification of novel substances project—WEDINOS—which provides evidence-based harm reduction advice for those using or considering using these substances.

### Argyfyngau Sifil

### Civil Emergencies

## Russell George Bywgraffiad Biography

14. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drefniadau Llywodraeth Cymru o ran cynllunio ar gyfer argyfyngau sifil yng Nghymru? OAQ(4)1530(FM)

14. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's planning arrangements for civil emergencies in Wales? OAQ(4)1530(FM)

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Welsh Government provides acknowledged national leadership for civil emergencies in Wales. The Welsh Government welcomes the recommendation of the Silk commission that there should be a transfer of executive functions for civil contingencies and emergencies. This will clarify accountability and strengthen our response.

### Cynhadledd Fawr ar yr Iaith Gymraeg

### 'Cynhadledd Fawr' on the Welsh Language

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

15. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i ymateb i ganlyniadau'r Gynhadledd Fawr ar yr iaith Gymraeg? OAQ(4)1528(FM)

15. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's efforts to respond to the outcomes of the Cynhadledd Fawr on the Welsh language? OAQ(4)1528(FM)

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Dros y misoedd diwethaf, bûm yn ystyried yr ymatebion i ymgynghoriad y gynhadledd fawr, ynghyd â nifer o adolygiadau yn edrych ar hybu a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol feysydd. Rydym eisoes wedi datgan y byddwn yn gwneud cyhoeddiad llawn ar ein hymateb yn y gwanwyn.

In recent months, I have been considering the responses to the 'cynhadledd fawr' consultation, along with several reviews looking at using and promoting the use of the Welsh language in various fields. We have already stated that we will be making a full announcement on our response in the spring.

# Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

# Questions to the Minister for Culture and Sport

### Amgueddfeydd Cyhoeddus

### Public Museums

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

11. A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i gynorthwyo amgueddfeydd cyhoeddus yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0134(CS)

11. Will the Minister outline Welsh Government policies to support public museums in South Wales West? OAQ(4)0134(CS)

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

The Welsh Government's policy for local museums across Wales is set out in the museums strategy for Wales.

### Caerdydd fel Prifddinas Chwaraeon Ewrop yn 2014

### Cardiff as the 2014 European Capital of Sport

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

12. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Chyngor Caerdydd mewn perthynas â Chaerdydd fel prifddinas chwaraeon Ewrop yn 2014? OAQ(4)0132(CS)

12. What discussions has the Minister had with Cardiff Council in relation to Cardiff being the 2014 European Capital of Sport? OAQ(4)0132(CS)

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

I have had general discussions with members and officials from Cardiff Council at which this topic has been raised. Officials and Sport Wales have also had discussions with the authority on this matter.

### Capeli

### Chapels

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

13. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu ar gyfer capeli sy'n cael ei gynnal gan CADW? OAQ(4)0130(CS)

13. Will the Minister provide an update on the action plan for chapels being carried out by CADW? OAQ(4)0130(CS)

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

As I recently announced, I want to see progress in safeguarding our religious heritage and I have asked Cadw to work with the sector to develop and implement a strategic action plan for chapels that will help address the challenges facing them. This work will begin shortly.

### Amgueddfeydd ac Orielau

### Museums and Galleries

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

14. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo'r defnydd o amgueddfeydd ac orielau gan blant a phobl ifanc yng Nghymru? OAQ(4)0128(CS)

14. What steps is the Minister taking to promote the use of museums and galleries by children and young people in Wales? OAQ(4)0128(CS)

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

The national museums Strategy includes explicit aims to encourage increased participation by children and young people in terms of museums and galleries. The Welsh Government is working with the charity Kids in Museums to develop and improve services offered to young people in museums, galleries and the wider heritage sector in Wales.

**Pobl Ifanc mewn Chwaraeon yn Sir Benfro**

**Young People in Sport in Pembrokeshire**

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

15. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau i bobl ifanc mewn chwaraeon yn Sir Benfro? OAQ(4)0122(CS)

15. Will the Minister outline his priorities for young people in sport in Pembrokeshire? OAQ(4)0122(CS)

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i greu mwy o gyfleoedd gwell i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig pobl ifanc ledled Cymru.

The Welsh Government remains committed to providing more and better quality opportunities to participate in sport, especially for young people throughout Wales.